**LC1430**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithredu un proses apelio generig i ffermwyr yng Nghymru mewn cysylltiad â chynlluniau grant a chymhorthdal. Ar hyn o bryd, mae yna amrywiaeth o brosesau apelio ar gael i ffermwyr yng Nghymru sy’n gwrthwynebu penderfyniadau a wneir gan yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Bydd y Rheoliadau hyn yn dirymu’r trefniadau presennol hyn.

Gwnaed y Rheoliadau ar 13 Rhagfyr 2006 o dan y Weithdrefn Weithredol a daethant i rym ar 1 Ionawr 2007 i ategu’r trefniadau newydd ar gyfer cefnogaeth ariannol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.

Fe’u cyflwynir i’r Pwyllgor Deddfau yn unol â Rheol Sefydlog 24.28.

## Rheol Sefydlog 11.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**16 Ionawr 2007**